Ein cyf: MB/EH/0060/10
Eich cyf:

Andrew R T Davies AC
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

27 Ionawr 2010

Annwyl Andrew,

Yn ystod sesiwn Cwestiynau i'r Trefnydd ar 19 Ionawr, codwyd pryderon gennych am y Strategaeth Nyrsio Ysgolion. Fe wnaeth y Trefnydd addo y byddwn yn ysgrifennu atoch ynghylch y pwyntiau a godwyd gennych.

Gwnaethpwyd ymrwymiad yn Cymru'n Un y byddai Llywodraeth Cynulliad Cymru yn darparu o leiaf un nyrs teulu am bob ysgol uwchradd erbyn diwedd tymor y Cynulliad. Yn dilyn ymgynghoriad, rydym yn awr yn defnyddio'r term nyrs ysgol.

Cyhoeddwyd y 'Fframwaith ar gyfer Gwasanaeth Nyrsio Ysgolion yng Nghymru' i'r gwasanaeth ym mis Awst 2009. Mae'r Fframwaith yn amlinellu egwyddorion ar gyfer y gwasanaeth nyrsio ysgolion, gan gynnwys:

- gwasanaeth sydd ar gael drwy gydol y flwyddyn gan gynnwys y tu allan i ddiwrnod yr ysgol;
- tîm nyrsio ysgolion ar gyfer pob ysgol uwchradd a'r ysgolion cynradd cyfagos ;
- gwasanaeth sy'n canolbwyntio ar blant a phobl ifanc o oed ysgol, p'un a ydynt yn mynd i'r ysgol a'i peidio;
- ystafell addas i'r nyrs ysgol yn yr ysgol uwchradd.

Ym mis Tachwedd 2009 ysgrifennodd Prif Weithredwr y GIG yng Nghymru at Brif Weithredwyr y BILlau newydd yn nodi blaenoriaethau Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer y gwasanaeth ac yn gofyn am gynigion lleol ar gyfer gweithredu er mwyn sicrhau fod ymrwymiad Cymru'n Un yn cael ei wireddu. Awgrymwyd yn y llythyr y dylid blaenoriaethu swyddi ar gyfer nyrsys sydd wedi ennill cymhwyster nyrsys ysgol, sef Nyrs Iechyd y Cyhoedd Cymunedol Arbenigol (NICCA) yn ddiweddar.

Mae cynlluniau gweithredu lleol wrthi'n cael eu paratoi ar y cyd ag AGAAG (Asiantaeth Genedlaethol Arwain ac Arloesi mewn Gofal Iechyd).

Byddwn yn rhyddhau arian cyn gynted ag y byddwn yn derbyn y cynlluniau gweithredu lleol gan y BILlau, gan y byddwn yn dosrannu arian ar sail angen.